**EITEM AR YR AGENDA: 14**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**19 Medi 2016**

**RHAGLEN GYFALAF 2016-17**

**Adroddiad gan Dawn Docx**
**Dirprwy Brif Swyddog Tân/Trysorydd dros dro**

## Diben yr Adroddiad

1 Cael cymeradwyaeth Aelodau Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i addasiadau cyfalaf yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion prosiectau.

## Cyflwyniad

2 Yn y gorffennol, mae'r papur ar y rhaglen gyfalaf wedi canolbwyntio ar y cynnydd mewn perthynas â rhaglen ystadau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Gyda chwblhau'r Ganolfan Adnoddau Ambiwlans a Thân yn Wrecsam, mae'r rhaglen ystadau ar fin dirwyn i ben ac rydym yn symud i'r cyfnod cynnal a chadw.

3 Mae'n bryd tynnu sylw'r aelodau at agweddau eraill ar y rhaglen gyfalaf.

4 Bob blwyddyn, mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cymeradwyo ei gyllideb gyfalaf ar gyfer y flwyddyn ddilynol yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr. Mae'r gyllideb hon yn cynnwys cyllid cyfalaf, nid yn unig ar gyfer yr ystadau ond hefyd ar gyfer y rhaglen cerbydau newydd ac unrhyw dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar raddfa fawr neu brosiectau cyfarpar gweithredol.

5 Yn ystod y flwyddyn, gall ddod i'r amlwg fod yr amcangyfrifon cyfalaf yn annigonol neu nad oes mo'u hangen eto oherwydd bod amserlenni prosiectau wedi gorfod newid o ganlyniad i ffactorau allanol. Mae'n ddoeth felly i'r Awdurdod Tân ac Achub gael cyfle i ail-gysoni ei gyllideb gyfalaf drwy ddefnyddio trosglwyddiadau (*virements*).

6 Lluniwyd yr adroddiad hwn i gael cymeradwyaeth i drosglwyddiadau cyfalaf ganol blwyddyn i ymorol am arian ar gyfer y prosiectau trawsffurfiol a ganlyn.

## Gwybodaeth

7.1 Prosiect gorchymyn a rheoli – mae'r system gorchymyn a rheoli yn cael ei disodli wrth baratoi ar gyfer yr ESMCP (rhaglen cysylltiadau symudol y gwasanaethau brys). £600k oedd yr amcangyfrif o gostau cychwynnol y prosiect; ond yn dilyn proses dendro a llofnodi'r contract cyflenwyr, mae'r costau tua £1.2m. £630k yw'r cyfalaf cyfredol sydd wedi'i ddyrannu i'r prosiect. I ariannu rhan o'r costau ychwanegol, cynigir trosglwyddo £477,633 o raglen gyfalaf y Fflyd. Cafodd y ffigwr hwn ei ddyrannu tuag at ariannu peiriant cyrraedd yn uchel nad oes mo'i angen eto. Bydd angen chwistrelliad pellach o gyfalaf gwerth £92k yn ystod blwyddyn ariannol 2016-17.

7.2 Setiau cyfarpar anadlu newydd - yn 2015, fe wnaeth y Gwasanaeth gwblhau dau brosiect cyn pryd; sef caffael helmedi tân a phibell newydd ar lefel Cymru gyfan. Rhyddhaodd hyn symiau cyfalaf gwerth £83,613 a £18,029 yn eu trefn. Argymhellir bod y cyfalaf sydd wedi'i ddyrannu i'r prosiectau hyn yn cael ei drosglwyddo i raglen setiau cyfarpar anadlu newydd, gan fod y gyllideb sydd wedi'i dyrannu i'r prosiect ar hyn o bryd yn annigonol.

7.3 Mae mentrau cydweithredol rhwng y tri gwasanaeth wedi gosod galwadau ychwanegol ar yr gofyn am gerbydau priodol ar gyfer diffoddwyr tân gwledig y system dyletswydd amser cyflawn a'r cynllun treialu cyd-ymateb. Er mwyn cefnogi'r mentrau hyn, argymhellir bod £150k yn cael ei drosglwyddo o'r peiriannau arbennig i'r darpariaethau cyfalaf.

## Argymhelliad

8 Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad ac yn cymeradwyo'r symudiadau y gofynnwyd amdanynt ar y cronfeydd cyfalaf.